------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 2 Mehefin 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(268)v7

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Cynnigion i ethol Aelodau i bwyllgorau (5 munud)**

**NDM5774 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Dafydd Elis-Thomas (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn lle Simon Thomas (Plaid Cymru).

**NDM5775 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Altaf Hussain (Ceidwadwyr) yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn lle

Janet Finch Saunders (Ceidwadwyr).

**NDM5776 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Mohammad Asghar (Ceidwadwyr) yn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn lle William Graham (Ceidwadwyr).

**NDM5777 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Janet Haworth (Ceidwadwyr) yn aelod o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

**NDM5778 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Mohammad Asghar (Ceidwadwyr) yn aelod o'r Pwyllgor Menter a Busnes.

**4 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y camau a gymerwyd mewn ymateb i'r adroddiad annibynnol ar Tawel Fan - TYNNWYD YN OL**

**Cynnig am Ddadl Frys o dan Reol Sefydlog 12.69**
**Darren Millar:**
Bod y Cynulliad yn ystyried canfyddiadau'r ymchwiliad i ofal cleifion ar ward Tawel Fan yn Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan.

**5 Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar Blant a Phobl Ifanc yn Gyntaf: Cyflawni ein Hymrwymiad i Gyfiawnder Ieuenctid yn llwyddiannus (30 munud)**

**6 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Y diweddaraf am y Gronfa Buddsoddi i Arbed (30 munud)**

**7 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Adroddiad o Gynnydd Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-2020 (30 munud)**

**8 Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Cydlyniant Cymunedol - Cynnydd a Heriau (30 munud)**

**9 Y Rheoliadau Di-fwg (Cerbydau Preifat) 2015 (15 munud)**

**NDM5767 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Mai 2015.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**10 Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015 (15 munud)**

**NDM5768 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Ebrill 2015.

**Dogfennau Ategol**
Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**11 Rheoliadau Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddiant Awdurdod Trwyddedu) (Cymru) 2015 (15 munud)**

**NDM5769 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o Reoliadau Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddi) (Cymru) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Mai 2015.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddi) (Cymru) 2015
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**12 Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 i amrywio trefn ystyried gwelliannau Cyfnod 3 Bil Cymwysterau Cymru (5 munud)**

**NDM5770 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni Fil Cymwysterau Cymru yng Nghyfnod 3 yn y drefn a ganlyn:

a) adran 2

b) atodlenni 1 a 2

c) adrannau 3 – 11

d) atodlen 3

e) adrannau 12 – 57

f) atodlen 4

g) adrannau 58 – 60

h) adran 1

i) Teitl Hir

**13 Cyfnod pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 3 Mehefin 2015

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 28 Mai 2015 i'w hateb ar 2 Mehefin 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Aled Roberts (Gogledd Cymru)**: Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fonitro ymateb Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i bwysau ar wasanaethau brys yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)2305(FM)**W**

2. **Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**: Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cynyddu nifer y tai newydd sy'n cael eu hadeiladu yng Nghymru? OAQ(4)2297(FM)

3. **Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru)**: Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn 2015 i wella gwasanaethau i bobl sy'n dioddef o diabetes yng Nghymru? OAQ(4)2299(FM)

4. **William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cyfraniad Llywodraeth Cymru at ddigwyddiad beicio Velothon Cymru? OAQ(4)2301(FM)

5. **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Prif Weinidog wedi'u gomisiynu parthed yr effaith y bydd diddymu neu ddiwygio Deddf Hawliau Dynol 1998 yn ei chael ar ddatganoli yng Nghymru? OAQ(4)2300(FM)**W**

6. **Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gomisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer

pobl Brycheiniog a Sir Faesyfed gan Gyngor Sir Powys?
OAQ(4)2304(FM)

**7. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymrwymiad ei weinyddiaeth i gynyddu cyllid ysgolion 1 y cant yn uwch na'r newid yng ngrant bloc y Cynulliad?
OAQ(4)2296(FM)

**8. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ofal i bobl hŷn eiddil eu meddwl yng ngogledd Cymru?
OAQ(4)2307(FM)**W**

**9. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Pa faterion y mae'r Prif Weinidog yn bwriadu codi yng nghyfarfod nesaf cydbwyllgor y Gweinidogion? OAQ(4)2306(FM)W

**10. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i wneud de-ddwyrain Cymru yn bwerdy economaidd ar gyfer y DU? OAQ(4)2298(FM)

**11. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gysylltiadau trafnidiaeth yng ngogledd Cymru?
OAQ(4)2303(FM)

**12. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Beth targed Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhyrchu trydan o ffynonellau adnewyddadwy?
OAQ(4)2294(FM)

**13. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am unrhyw gyfathrebu sydd wedi digwydd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Ysgol Reolaeth ym Mhrifysgol Abertawe?
OAQ(4)2302(FM)

**14. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith y byddai'r DU yn gadael yr UE ei chael ar sector ymchwil Cymru? OAQ(4)2295(FM)

**15. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd morol am weddill y Cynulliad hwn? OAQ(4)2308(FM)

# Eitem 2

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar [dudalen y Cyfarfod Llawn]**

**Dydd Mawrth 9 Mehefin 2015 a dydd Mercher 10 Mehefin 2015**
**Dydd Mawrth 16 Mehefin 2015 a dydd Mercher 17 Mehefin 2015**
**Dydd Mawrth 23 Mehefin 2015 a dydd Mercher 24 Mehefin 2015**

---

**Dydd Mawrth 9 Mehefin 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Gyflwyno Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) (60 munud)
- Dadl Cyfnod 3 ar Fil Cymwysterau Cymru (180 munud)

**Dydd Mercher 10 Mehefin 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)

- Dadl Fer - Aled Roberts (Gogledd Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 16 Mehefin 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Prif Weinidog: Adroddiad Blynyddol ar y Rhaglen Lywodraethu (60 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Y cynnydd a wnaed ar gyflawni Blaenoriaethau Diogelwch Cymunedol y Rhaglen Lywodraethu (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Gweithrediadau'r Gronfa Strwythurol Ewropeaidd i fynd i'r afael â thlodi (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Ymateb Llywodraeth Cymru i Addysgu Athrawon Yfory – opsiynau ar gyfer dyfodol Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Cyflawni newid ar gyfer Cymru drwy Bolisi Caffael (30 munud)

**Dydd Mercher 17 Mehefin 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i’r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (45 munud)
- Cwestiynau i’r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog 2, 13 ac 17 mewn perthynas â Chofrestru a Datgan Buddiannau'r Aelodau a Rheolau Sefydlog 17 a 22 mewn perthynas ag Aelodaeth y Pwyllgor Safonau Ymddygiad (5 munud)
- Cynnig i gymeradwyo'r Canllawiau i Aelodau'r Cynulliad ar Gofrestru, Datgan a Chofnodi Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill ac i fabwysiadu'r Cod Ymddygiad diwygiedig (15 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Nick Ramsay (Sir Fynwy) (30 munud)

**Dydd Mawrth 23 Mehefin 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Taith Cyllideb 2015 – Buddsoddi yn y Gymru a Garem (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd: Fframwaith strategol ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Adroddiad Blynyddol Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 2015 (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y Diweddaraf ar Borthladdoedd (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Iechyd: Buddsoddi mewn Cynlluniau Cyflenwi (30 munud)

- Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Camau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â risgiau sy'n ymwneud â Thanau Glaswellt yng Nghymru (30 munud)

**Dydd Mercher 24 Mehefin 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Dadl ar Araith y Frenhines (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru) (30 munud)